CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS IAU
14 Mawrth 2019
AM 7.30 O'R GLOCH YN YSGOL BRYNGWRAN

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, R G Parry, K Humphreys, I Rowlands, E Huws, G Parry, C Ll Thomas, S Parry, S Williams, G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng C Hughes, E Huws, D Rees (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan yr Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 14.02.19 - Cyng G Parry yn cynnig a Cyng R G Parry yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**BDO Archwilwyr Allanol.** Mae'r Clerc wedi derbyn eglurhad o'r gwahaniaethau yn y costau. Mae BDO wedi cyfeirio'r mater yn ymwneud â bod y cyfrifon yn hwyr i Swyddfa Archwilio Cymru
4.2	**Cysgodfannau bws** - Mae'r Clerc wedi bod mewn cysylltiad a Community Pay Back ac yn disgwyl ymateb.
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** - Dywedodd y Cadeirydd fod ceisiadau'n cael eu gwahodd ar gyfer Gwasanaeth Elusennol Ynys Môn ac i'r aelodau ystyried y mater ar gyfer y cyfarfod nesaf. Mae ceisiadau'n cau ym mis Mai.
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
6.1	Ymgynghoriad cyhoeddus Canllawiau Cynllunio - dim sylwadau
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	**Jill Evans MEP** Claddu Gwastraff Niwclear yng Nghymru - Darllenwyd llythyr yn gofyn i'r cyngor basio cynnig yn datgan na fydd y gymuned yn gwirfoddoli i gladdu gwastraff niwclear o dan y ddaear. Cytunwyd i wneud hynny
7.2	**Cyng Mike Parry, Pwllheli** - Darllenwyd llythyr yn dweud "Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnig canoli pob darpariaeth fasgwlaidd frys yn Ysbyty Glan Clwyd. Y tro cyntaf i unrhyw ddarpariaeth frys gael ei symud o Ysbyty Gwynedd, felly mae hon yn gynsail peryglus iawn " Nid yw Cyngor Cymuned Bryngwran yn cefnogi'r newid.
7.3	**BDO** - gweler 4.1
	Llofnod…….Cadeirydd 11.04.19

8	**MATERION ERAILL**
8.1	Arwyddion Cwn - Cytunwyd i symud ymlaen gyda gosod arwyddion yn y cae chwarae
8.2	Rheolau - Cytunwyd i ail edrych ar rhain yn y cyfarfod nesaf
8.3	Derbyniwyd ymddiswyddiad Cyng Caren Hughes. Bydd y Clerc yn trefnu llenwi y sedd wag
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Aelodaeth Unllais Cymru £131.00
9.2	Unllais Cymru hyfforddiant Cyng I Roberts £40.00
9.3	Rhoddion - cytunwyd i beidio cynnig rhoddion
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
10.1	Ffarm Solar
10.2	Draenio y cae chwarae
10.3	Lôn Salem
10.4	Lampiau Stryd Bro Crigyll
	Llofnod…….Cadeirydd 11.04.19